# Gwasanaethu Boeleri ac Offer Nwy

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar Gyngor Caerdydd i sicrhau bod unrhyw bibellwaith ac offer nwy sy'n eiddo i'r Cyngor yn ddiogel i'w defnyddio.

Caiff y system nwy ac offer y Cyngor eu harchwilio pan fyddwch chi'n symud i mewn i'ch cartref newydd.

Rhaid gwneud **prawf blynyddol** ar unrhyw offer sy'n eiddo i'r Cyngor hefyd.

Byddwch yn cael llythyr pan fo'n amser gwasanaethu eich offer.  Rhaid i chi gysylltu â'r adran nwy ar 029 203872088 a gwneud apwyntiad i beiriannydd nwy ymweld â'ch cartref i gynnal y profion hanfodol hyn.

Os na fyddwch chi'n trefnu apwyntiad er mwyn i'n peiriannydd nwy ymweld â chi gallech fod yn achosi perygl o wenwyn carbon monocsid i chi'ch hun a'ch teulu neu ymwelwyr.

Os na fyddwch chi'n caniatáu i'r profion gofynnol gael eu cynnal byddwch chi'n torri amodau eich cytundeb tenantiaeth hefyd.

Mae'n hanfodol eich bod chi'n rhoi mynediad i ni gynnal yr archwiliad diogelwch nwy pwysig hwn.

Os na fyddwch chi, gall y Cyngor gymryd camau cyfreithiol neu dorri i mewn i'ch cartref er mwyn gwneud y gwaith ac efallai mai chi fydd yn gyfrifol am dalu'r costau cysylltiedig.

## Darperir y gwasanaeth hwn am ddim i holl Denantiaid y Cyngor

Proud to Deliver
Yn Falch o Gyflawni

CARDIFF
CAERDYDD